Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Plascrug**
**Rhodfa Plascrug**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 1HL**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Plascrug

Mae Ysgol Gymunedol Plascrug wedi'i lleoli yn Aberystwyth, Ceredigion. Mae'n ysgol cyfrwng Saesneg ond yn rhoi gwerth mawr ar y Gymraeg, ac amrywiaeth o ieithoedd eraill a siaredir gan y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Daw tua chwarter y disgyblion o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae 448 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar hyn o bryd, gan gynnwys 58 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Mae ychydig llai na 9% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Mae tua 5% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 34% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae ychydig iawn o'r disgyblion yn debyg gofal gan yr awdurdod lleol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2014 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Medi 2012.

Mae'r ysgol yn ysgol arloesi ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Plascrug yn gymuned hapus, ofalgar ac amrywiol lle caiff pob un o'r disgyblion eu gwerthfawrogi'n gyfartal ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae disgyblion yn dangos sensitifrwydd a pharch rhagorol tuag at eu cyfoedion ac yn disgrifio eu hysgol fel lle cyffrous a chroesawgar ag iddi ymdeimlad hapus a theuluol. Ceir perthynas weithio eithriadol o effeithiol rhwng staff a disgyblion, sy'n seiliedig ar ddisgwyliadau uchel, her a chymorth yn gyson. Trwy weithgareddau hynod ddifyr a heriol, mae staff yn annog disgyblion i fod yn ddysgwyr sy'n gynyddol annibynnol. O ganlyniad, maent wedi'u cymell yn dda i ddysgu. Mae gan ddisgyblion ran annatod mewn cynllunio eu profiadau dysgu eu hunain ac mae athrawon yn monitro eu cynnydd yn ofalus, i sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth strategol hynod effeithiol sy'n seiliedig ar ffocws cryf a chyson ar gynnal safonau uchel o gyrhaeddiad a lles. Mae pob un o'r staff yn rhannu'r weledigaeth glir hon ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r ysgol yn darparu ethos eithriadol o effeithiol a naturiol Gymreig ar gyfer disgyblion ac yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd yn ei holl weithgareddau. Mae disgyblion wedi llwyddo'n gyson dros flynyddoedd lawer mewn cystadlaethau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac maent yn ymfalchïo'n fawr yn eu cyflawniadau.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Datblygu rôl strategol y corff llywodraethol ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol gyfan

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos i'w lledaenu ar ei gwefan, yn seiliedig ar ei gwaith sy'n ymwneud â datblygu annibyniaeth ymhlith disgyblion o bob oedran a gallu.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol â medrau iaith, rhifedd a chymdeithasol ar lefel sy'n briodol i'w hoedran. Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, y rheiny sy'n derbyn gwersi Saesneg fel iaith ychwanegol a'r nifer fach iawn sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni deilliannau cryf iawn ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus. Mae ganddynt eirfa eang yn Saesneg ac yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'r Gymraeg yn gyflym. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth drafod arferion bob dydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau llafaredd Saesneg rhagorol. Maent yn siarad yn hyderus iawn mewn ystod eang o sefyllfaoedd, gan fynegi barn a theimladau ag aeddfedrwydd. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth ragorol o'r Gymraeg, ac maent yn mynegi eu hunain yn naturiol, a gyda hyder cynyddol ac yn ymateb i gyfarwyddiadau yn synhwyrol.

Mae bron pob un o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd cyflym â'u darllen. Maent yn gwneud cynnydd cryf o ran deall y berthynas rhwng llythrennau a seiniau, ac yn dysgu cymhwyso'r medrau hyn yn gyflym wrth wynebu testunau cynyddol heriol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau i wneud cynnydd da iawn ac yn mwynhau cyfeirio at eu hoff awduron ac arddulliau.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos medrau ysgrifennu aeddfed yn Saesneg, ac yn eu cymhwyso'n hyderus mewn amrywiaeth eang o *genres* ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion iau y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd rhagorol o greu marciau ac ysgrifennu ymddangosol cynnar i lunio darnau hynod ddifyr o destun, gan ddefnyddio atalnodi a sillafu effeithiol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith o ansawdd da, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad sensitif am brofiad draenog o ddiwrnod gwlyb. Mae bron pob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn llunio darnau diddorol iawn o destun mewn amrywiaeth o *genres*. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn creu proffil cymeriad difyr iawn o Miss Poppy, gan ddangos dealltwriaeth gadarn o gymeriadu. Mae disgyblion yn ailddrafftio eu gwaith yn hyderus yn dilyn adborth defnyddiol, ac yn esbonio'r gwelliannau y maent wedi'u gwneud. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu i fod yn ysgrifenwyr hynod effeithiol sy'n defnyddio amrywiaeth o effeithiau i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr sensitif gan filwr ifanc o'r Rhyfel Byd Cyntaf at ei rieni yng Nghymru. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud defnydd effeithiol o'u profiadau llythrennedd eang ac yn datblygu i fod yn ysgrifenwyr annibynnol medrus ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae gan bron bob un o'r disgyblion lawysgrifen ddatblygedig, sy'n gwella eu cyflwyniad yn fawr. Mae darllen ac ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Cymraeg yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn ddatblygedig iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu datblygiad mathemategol. Mae ganddynt fedrau rhif rhagorol, a gafael gadarn ar siâp a data. Mae gan bron bob un ohonynt ddealltwriaeth dda o amser ac arian, ac maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, defnyddiant ddata am anifeiliaid anwes disgyblion i greu graff bar a mesur hyd pryfed genwair yn gywir mewn centimedrau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan bron bob un o'r disgyblion fedrau mathemategol datblygedig iawn ac maent yn cymhwyso'r rhain yn hyderus mewn cyd-destunau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn llunio graffiau llinell hynod fanwl i ddangos ansawdd inswleiddiad thermol cwpanau coffi o wahanol ddeunyddiau. Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion, beth bynnag fo'u gallu, yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau heriol a difyr sy'n eu hannog i ddatblygu eu medrau datrys problemau mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da ac maent yn eu cymhwyso'n effeithiol iawn mewn sefyllfaoedd eraill o oedran cynnar. Er enghraifft, mae bron pob un o ddisgyblion y meithrin yn rheoli symudiad robot electronig ag olwynion yn hyderus a defnyddiant amrywiaeth o feddalwedd i ddatblygu ffurfio llythrennau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn dewis offer a meddalwedd yn hyderus i gefnogi eu dysgu. Er enghraifft, maent yn creu flog hynod effeithiol am eu hymweliad sydd ar fin digwydd â Chylch yr Arctig i ddatblygu eu llafaredd, ac yn defnyddio system gofnodi electronig wrth asesu eu gwaith eu hunain a rhoi adborth i'w cyfoedion.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau eithriadol o dda at ddysgu, a lefelau uchel iawn o les. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn derbyn gofal ac yn cael eu meithrin o ganlyniad i'r ethos teuluol cryf iawn sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth aeddfed o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel trwy ddiet ac ymarfer corff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau bwyd iach ac mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau chwaraeon sy'n ffurfio rhan o ddarpariaeth yr ysgol, fel menter 'fit in five' y maent yn ymgymryd â hi bob dydd. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at ddatblygu eu ffitrwydd, eu hyder, eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos agwedd ofalgar iawn tuag at ei gilydd. Maent yn rhannu penderfyniad y dylid cynnwys pob disgybl ym mhob gweithgaredd yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Mae bron pob un ohonynt yn amddiffynnol o'i gilydd, ac yn dangos pryder at ei gilydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd niferus ac amrywiol i ymgymryd â rolau arwain, fel y 'Criw Cymraeg', y llysgenhadon chwaraeon efydd a'r pwyllgor eco. Mae'r cyngor ysgol yn gorff effeithiol sy'n cydnabod bod y staff yn gefnogol ohonynt ac yn gwrando ar eu syniadau. Mae'r ysgol wedi gweithredu yn unol ag awgrym y cyngor i drefnu gŵyl gynhaeaf a chasglu eitemau ar gyfer banc bwyd lleol. Maent wedi cyflwyno clwb darllen hefyd, sydd wedi bod yn boblogaidd gyda disgyblion, ac mae wedi effeithio'n dda ar eu safonau a'u diddordeb mewn darllen.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac maent yn hyderus yn lleoliad yr ysgol. Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn y dosbarth ac o

gwmpas yr ysgol yn eithriadol o dda. Ceir perthynas weithio gref a chefnogol rhwng disgyblion a staff, sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod beth i'w wneud os byddant yn poeni neu'n pryderu. Caiff disgyblion eu hannog i ddatblygu a dathlu eu profiadau fel dysgwyr annibynnol mewn ethos o her a disgwyliad uchel. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn hyderus, ac maent yn gysurus mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd a gyda phobl sy'n ymweld â'r ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gref iawn o bwysigrwydd hawliau a gwerthoedd fel y dangosir gan eu gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er enghraifft, maent yn esbonio'n fanwl i ymwelwyr yr effaith a gafodd yr Ail Ryfel Byd ar hawliau plant, y tynnwyd eu rhyddid oddi wrthynt yn ystod y gwrthdaro.

Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r medrau meddwl aeddfed ac effeithiol y mae disgyblion yn eu datblygu wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 5, mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain trwy benderfynu ar weithgareddau perthnasol a phwy i'w gwahodd i weithio gyda nhw ar destunau fel 'Ar Saffari' fel rhan o waith arloesol yr ysgol yn y celfyddydau creadigol. Mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar safonau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Fel ysgol sy'n arloesi yn y cwricwlwm ac ysgol greadigol arweiniol, ceir ymagwedd thematig drylwyr at gynllunio'r cwricwlwm. Mae ansawdd y cynllunio yn rhagorol ac yn cynnig hyblygrwydd i weithio yn unol â diddordebau ac anghenion y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio syniadau disgyblion yn greadigol i ddatblygu profiadau dysgu cyfoethog sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb bron pob un ohonynt wrth iddynt ddatblygu eu medrau.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu tasgau o ansawdd uchel iawn i ddisgyblion, sy'n ennyn diddordeb bron pob un ohonynt yn llawn, ac yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus i lefel uchel. Mewn gwersi, mae staff yn rhoi cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fod yn ddysgwyr annibynnol gweithredol, ac ymateb yn gadarnhaol i heriau addas.

Mae gan bron pob aelod o staff ddisgwyliadau uchel, ac o ganlyniad, mae gan bron bob disgybl agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn hynod lwyddiannus i greu amgylchedd lle mae bron pob un o'r disgyblion yn awyddus i roi o'u gorau.

Mae addysgu tîm yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol, ac mae athrawon yn rhannu arbenigedd yn llwyddiannus. Mae'r arsylwadau ar y cyd rhwng athrawon a chymheiriaid, lle mae tri chydweithiwr yn arsylwi ei gilydd, wedi bod yn fuddiol iawn o ran rhannu arfer dda ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau hynod greadigol i ennyn diddordeb disgyblion a bodloni anghenion pob grŵp o ddysgwyr. Mae bron pob un o'r athrawon yn gwahaniaethu gwaith yn sensitif ac yn effeithiol ac yn herio disgyblion sy'n fwy abl yn llwyddiannus.

Mae bron pob un o'r athrawon yn sicrhau bod cyflymdra da i'w gwersi, sy'n arwain at lefelau uchel iawn o ymgysylltu ymhlith disgyblion. Mae bron pob aelod o staff yn fodelau iaith rhagorol o ran y Gymraeg a Saesneg, a dangosant ddefnydd helaeth o fedrau dwyieithog wrth gyfathrebu mewn gwersi.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Ceir cymysgedd da iawn o weithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a gweithgareddau annibynnol. O ganlyniad, mae ansawdd y ddarpariaeth yn yr ardaloedd awyr agored a dan do yn dda ac yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae staff yn defnyddio holi effeithiol yn gyson i herio ac ysgogi trafodaeth, ac yn gwneud yn siŵr fod disgyblion yn deall eu gwaith. Mae athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig hynod effeithiol i ddisgyblion. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion y cyfnod sylfaen arfarnu eu gwaith yn hyderus trwy ddefnyddio system goleuadau traffig a myfyrio ar eu targedau. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn arfarnu eu darnau o ysgrifennu perswadiol am baentiad gan A K Skipsey yn synhwyrol. Mae bron pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o feini prawf llwyddiant i annog disgyblion i arfarnu eu cynnydd eu hunain yn llwyddiannus. Ym Mlynyddoedd 5 a 6 yn enwedig, mae disgyblion yn gosod eu hamcanion a'u meini prawf llwyddiant eu hunain yn ystod gwersi. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn gosod amcanion heriol i gynllunio ffordd addas a ddiogel o drosglwyddo anifeiliaid o Genia i'r West Midlands Safari Park.

Mae'r ffordd lwyddiannus y mae'r ysgol yn defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn ei chynlluniau yn gryfder arbennig ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ym mhob dosbarth ac yn eu defnyddio'n effeithiol mewn cyd-destunau cyfoethog a phwrpasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 4, caiff medrau llafaredd a darllen disgyblion eu herio mewn ffordd ysbrydoledig wrth iddynt fynegi eu teimladau wrth gyfansoddi darn o gerddoriaeth yn seiliedig ar daith yr ymsefydlwyr cynnar o Gymru i Batagonia.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau TGCh disgyblion. Mae staff yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd iddynt ddefnyddio ystod eang o fedrau yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae'r 'Dewiniaid Digidol' ('Digital Wizards') yn llwyddiannus o ran addysgu a chynorthwyo disgyblion eraill a staff ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn paratoi 'Flog' ysbrydoledig i roi gwybod i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 sut i ddefnyddio codau QR yn effeithiol i wella eu dysgu eu hunain.

Mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau dysgu ar gyfer disgyblion yn rheolaidd sy'n adlewyrchu a dathlu eu tarddiad diwylliannol, ieithyddol ac ethnig amrywiol. Mae ethos Cymreig cryf a ymgorfforir yn drylwyr yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae arddangosfeydd ysgogol yn dathlu cyflawniadau niferus y disgyblion yng Nghymru, fel eu llwyddiannau parhaus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae'r ysgol yn gwella'i darpariaeth Gymraeg yn llwyddiannus trwy amrywiaeth o strategaethau fel y cynllun 'Cymraeg Cŵl'. Mae hyn yn rhan annatod a hynod effeithiol o bob gweithgaredd ar draws yr ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gofal, cymorth ac arweiniad yr ysgol ar gyfer disgyblion yn hyrwyddo eu lles yn eithriadol o dda, ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rhagorol i ffynnu yn eu datblygiad academaidd, cymdeithasol, moesol ac emosiynol. Mae staff yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda ac yn darparu amgylchedd meithringar ar eu cyfer sy’n datblygu eu hyder, eu hunan-barch ac agweddau cadarnhaol ac aeddfed at ddysgu. Rhoddir pwyslais cyson ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hawliau dynol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu hagweddau a’u hymddygiad eithriadol o dda.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr a thrylwyr i olrhain a monitro cyflawniadau, cynnydd, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn defnyddio’r rhain yn effeithiol i nodi anghenion penodol disgyblion o bob gallu a chefndir iaith. Wedyn, mae’r ysgol yn darparu ystod eang o raglenni i ddisgyblion sy’n bodloni eu hanghenion yn llwyddiannus.

Mae’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol hynod effeithiol yn darparu cymorth rhagorol ar gyfer staff o ran datblygu darpariaeth unigoledig o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion penodol. Mae staff hyfforddedig yn cyflwyno ystod o raglenni ymyrraeth i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Ceir rhaglenni eithriadol o fuddiol i gynorthwyo disgyblion sy’n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anghenion emosiynol ychwanegol. Er enghraifft, mae defnyddio rhaglenni iaith penodol a defnyddio’r ystafell synhwyraidd yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar wella hunan-barch disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau gwell o hyder ac ymgysylltiad ym mywyd yr ysgol. Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau addysg unigol manwl sy’n cynnwys targedau mesuradwy, heriol a chyflawnadwy gyda llawer o fewnbwn gan ddisgyblion a rhieni.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd cryf â rhieni, ac mae’n eu hysbysu’n dda am gynnydd eu plentyn. Mae trefniadau’n cynnwys adroddiadau cynnydd manwl a nosweithiau rhieni rheolaidd fel y ‘nosweithiau cyfarfod â’r athro/athrawes’ a gynhelir ym mis Medi i roi gwybod i rieni am weithdrefnau ac arferion ystafell ddosbarth, sy’n rhoi trosolwg o’r gweithgareddau dysgu ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn. Mae adroddiadau blynyddol addysgiadol ac unigoledig yn rhoi darlun cywir i rieni o gynnydd eu plentyn ac yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella. Mae gwefan yr ysgol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol eraill yn rhoi gwybodaeth gyfredol a manwl i rieni am weithgareddau’r ysgol.

Mae staff yn darparu llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol mewn gwneud penderfyniadau ac arwain. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Er enghraifft, ceir cyngor ysgol gweithgar iawn, cyngor eco, ‘Criw Cymraeg’ a grŵp dewiniaid digidol. Mae’r cyngor ysgol yn canolbwyntio’n effeithiol ar faterion iechyd fel yr angen i ddisgyblion yfed digon o ddŵr i hydradu eu hunain yn ddigonol yn dilyn gwaith diddorol iawn a wnaed ar Yr Her Pi-pi (The Wee Challenge). Mae disgyblion yn trafod y casgliadau’n aeddfed iawn heb fymryn o embaras, ac o ganlyniad, maent yn yfed dŵr yn rheolaidd yn ystod y diwrnod ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau hynod effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach a gweithgarwch corfforol. Mae’r Llysgenhadon Efydd yn arwain sesiynau gweithgarwch yn llwyddiannus i ddatblygu medrau corfforol disgyblion a chynyddu lefelau cyfranogiad yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft trwy arwain y gweithgaredd dawnsio ‘hip hop’ ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen.

Mae'r ysgol yn llwyddo'n dda i ddarparu cwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol tra'n bod yn sensitif i ddiwylliant, traddodiadau a chredoau'r holl ddisgyblion ar yr un pryd. Mae'r ysgol yn gymuned gosmopolitaidd lle mae gan bron bob un o'r disgyblion ddealltwriaeth ragorol o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, tra'n datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch. Er enghraifft, mae'r prosiect arloesol rhwng y cenedlaethau, sef 'Clwb Ni', lle mae disgyblion yr ysgol yn ymweld â llety gwarchod lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r genhedlaeth hŷn, yn cryfhau cysylltiadau'r ysgol â'r gymuned ac yn gwella medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion.

Mae datblygu galluoedd artistig, creadigol a chwaraeon disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae arweinwyr ac athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fynd ar deithiau ac ymweliadau, fel i Lyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae wedi cael llwyddiant parhaus ar lefel genedlaethol yn Eisteddfod yr Urdd sy'n darparu llu o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cystadlaethau cerdd, llefaru a dawns. Mae tîm gymnasteg yr ysgol yn cystadlu'n llwyddiannus ar lefel genedlaethol hefyd. Mae gweithgareddau o'r fath yn datblygu galluoedd perfformio, artistig a chwaraeon disgyblion yn eithriadol o dda. Mae cyd-addoli yn hyrwyddo myfyrio ysbrydol disgyblion yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth profiadol yn darparu arweinyddiaeth gref, effeithiol a phwrpasol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn a gweledigaeth gadarn ar gyfer datblygu'r ysgol, y mae'n eu rhannu'n frwd â phob un o'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r rhain yn deillio o werthoedd addysgol clir ac amcanion uchelgeisiol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r pennaeth yn dosbarthu cyfrifoldebau'n effeithiol iawn ac yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff fel arweinwyr yn yr ysgol a thu hwnt yn llwyddiannus iawn. Mae aelodau staff yn arwain ar feysydd penodol arfer dda ar draws yr awdurdod lleol, fel hyrwyddo datblygiad llythrennedd corfforol mewn partneriaeth â sefydliad addysg uwch ac ysgolion lleol. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i rannu a datblygu arferion dysgu proffesiynol, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar agwedd disgyblion at ddysgu a lles.

Mae uwch dîm rheoli eithriadol o gryf yn frwdfrydig iawn ac wedi ymrwymo i hyrwyddo addysgu o ansawdd da a phrofiadau dysgu ysgogol. Maent yn annog a hyrwyddo ethos cadarnhaol a gofalgar o gydweithio, yn seiliedig ar gymorth ac arweiniad bugeiliol ar gyfer pob aelod o staff, yn ogystal â disgyblion. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae uwch arweinwyr wedi gweithio'n llwyddiannus iawn gydag athrawon i wella pob agwedd ar waith yr ysgol, yn enwedig o ran datblygu'r cwricwlwm fel ysgol arloesi, a sicrhau parhad medrau trwy waith tîm hynod effeithiol. Mae staff cymorth yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at wella safonau, lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad cadarn, ac mae cyfleoedd hyfforddi llwyddiannus yn eu cefnogi'n drylwyr. Mae bron pob aelod o staff yn elwa ar gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau dysgu proffesiynol sy'n bodloni blaenoriaethau'r ysgol a dyheadau personol yn effeithiol. Mae'r ffocws cryf ar ddysgu proffesiynol yn adlewyrchu'r flaenoriaeth uchel y mae arweinwyr yn ei rhoi i ddatblygu

medrau pob un o'r staff. Mae arweinwyr yn arbennig o effeithiol o ran nodi arbenigedd, cryfderau a diddordebau athrawon, ac o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau iddynt yn effeithiol iawn. Un nodwedd gref iawn yw'r ffordd y mae staff yn meddu ar yr hyder i arsylwi ei gilydd yn addysgu trwy drefniadau arsylwi cymheiriaid.

Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n dda i helpu pennu blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Maent yn cynnig cymorth adeiladol i'r tîm arweinyddiaeth mewn cyfarfodydd ac yn darparu arbenigedd proffesiynol gwerthfawr mewn meysydd penodol o waith yr ysgol. Fodd bynnag, mae eu rôl strategol yn y prosesau hunanarfarnu ysgol gyfan yn llai datblygedig.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r broses yn drylwyr a llwyddiannus iawn o ran galluogi arweinwyr i nodi, monitro ac arfarnu perfformiad yr ysgol yn effeithiol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod yna hinsawdd barhaus o dargedu a herio disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial a gwneud gwelliannau cyflawnadwy. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio ystod eang o ddata yn effeithiol i arfarnu cyflawniadau a chynnydd disgyblion. Maent yn annog safbwyntiau a barn disgyblion yn barhaus, er enghraifft o ran dewis a chynllunio testunau. Caiff hyn effaith gadarnhaol iawn ar ddisgyblion, sy'n gwerthfawrogi staff ac yn ystyried eu mewnbwn.

Mae cynllun datblygu cynhwysfawr yr ysgol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r broses hunanarfarnu, ac yn cynnwys manylion am y prif flaenoriaethau yn glir. Mae'r ddogfen yn gryno ac yn cynnwys cynlluniau a chamau gweithredu sy'n dyrannu cyfrifoldebau i arfarnu effeithiolrwydd darpariaeth a safonau'r ysgol. Trwy raglen strwythuredig o weithgareddau monitro, adolygiadau a chyfarfodydd, mae arweinwyr yn nodi'n barhaus y prif gryfderau a meysydd i'w gwella yng ngwaith yr ysgol sy'n helpu llywio cynllunio datblygiad.

Mae gan yr ysgol adnoddau da ac mae arweinwyr yn sicrhau defnydd pwrpasol o gyllideb yr ysgol i wella darpariaeth a safonau. Caiff gwariant ei reoli a'i fonitro'n bwyllgor, ac mae'n cysylltu'n ofalus â'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae uwch arweinwyr yn eithriadol o lwyddiannus o ran sicrhau cyllid ychwanegol sylweddol trwy amrywiaeth o brosiectau a grantiau, sy'n effeithio'n gryf ar safonau a datblygiad creadigol disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i wella safonau llythrennedd a rhifedd, yn ogystal â darparu cymorth hanfodol ar gyfer lles emosiynol disgyblion sy'n agored i niwed. Mae bron pob un o'r disgyblion targedig yn gwneud cynnydd rhagorol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2018